AMGUEDDFA CYMRU

# CYFARWYDDWR CASGLIADAU AC YMCHWIL

Medi 2025 EBWGA



Saxton Bampfylde

# Llythyr gan y Prif Weithredwr

Annwyl Ymgeisydd,
Rydyn ni yn Amgueddfa Cymru yn ein diffinio’n hunain fel Amgueddfa Fyw. Mae hyn yn golygu mwy na chadw'r gorffennol; mae'n golygu anadlu bywyd i'n casgliadau, ein straeon, a'n lleoedd. Mae'n golygu bod yn ddeinamig, yn gynhwysol ac yn berthnasol i bobl Cymru heddiw ac yfory.

Rydyn ni wrthi’n chwilio am Gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil i'n helpu i wireddu'r weledigaeth hon. Dyma gyfle prin i arwain un o'r portffolios diwylliannol mwyaf cyffrous ac uchelgeisiol yn y Deyrnas Unedig – casgliad cenedlaethol o fwy na 5 miliwn o wrthrychau, sy'n rhychwantu popeth o Monet i’r molysgiaid, o helmedau glowyr i gytiau moch canoloesol. Ond mae’n casgliad ni’n ymwneud â mwy na gwrthrychau yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â phobl, lleisiau a thraddodiadau – o hollti llechi a gwehyddu gwlân i hanesion llafar a mudiadau cymdeithasol cyfoes.

Wrth inni agosáu at ein canmlwyddiant yn 2027, rydyn ni wrthi’n ailddychmygu beth all amgueddfa genedlaethol fod. Rydym yn buddsoddi mewn projectau cyfalaf mawr, gan gynnwys gweddnewid Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis ac ailddatblygu Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Rydyn ni wrthi’n ymgorffori strategaeth ymchwil sy'n dyfnhau dealltwriaeth ac effaith. Ac rydym yn defnyddio data a deialog i sicrhau bod ein hamgueddfeydd yn adlewyrchu holl amrywiaeth bywyd yng Nghymru.



Mae'r rôl hon yn ganolog i'r siwrnai honno. Byddwch yn arwain tîm dawnus ac angerddol, yn llunio dyfodol ein casgliadau a'n hymchwil, ac yn ein helpu i adrodd stori Cymru mewn ffyrdd beiddgar, creadigol a chynhwysol. Byddwch yn stiward treftadaeth ac yn gatalydd newid – rhywun sy'n gallu anrhydeddu’r gorffennol a chofleidio'r dyfodol yr un pryd.

Os ydych chi'n rhannu’n huchelgais o wneud Amgueddfa Cymru yn amgueddfa fyw o'r radd flaenaf — un sy'n perthyn i bawb yng Nghymru ac sy'n siarad â'r byd — byddem yn falch iawn o glywed gennych.

Cofion cynnes,

Jane Richardson
Prif Weithredwr
Amgueddfa Cymru



# Ynglŷn ag Amgueddfa Cymru

Mae Amgueddfa Cymru yn elusen ac yn deulu o saith amgueddfa genedlaethol ac un ganolfan gasgliadau ledled Cymru.

Dyma'n saith amgueddfa:

- **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**
- **Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru**
- **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**
- **Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru**
- **Amgueddfa Lechi Cymru**
- **Amgueddfa Wlân Cymru**
- **Amgueddfa Genedlaethol y Lleng Rufeinig**

**Amgueddfa Fyw:** rydyn ni'n Amgueddfa Fyw sydd wedi'i hysbrydoli gan Gymru, i'r byd.

**Ein diben** yw ysbrydoli addysg a mwynhad i bawb drwy gasgliad cenedlaethol Cymru

**Ein nod** yw bod yn amgueddfa a chasgliad cenedlaethol byw, unigryw yn y byd – gan ddangos sgiliau, traddodiadau a lleoedd yng ngorffennol, presennol a dyfodol Cymru, gan ysbrydoli pawb a chreu etifeddiaeth fyw i genedlaethau i ddod.



AMGUEDDFA CYMRU

# Ein Casgliadau

Mae'r casgliad cenedlaethol yn drysorfa o ryfeddodau diwylliannol, yn adnodd i bawb ei archwilio, ei fwynhau a'i brofi. Mae'n ganolog i bopeth rydyn ni'n ei wneud. Boed yn eu cymunedau eu hunain, yn ein teulu o amgueddfeydd, neu'n ddigidol, ein nod yw galluogi pobl, ble bynnag y maen nhw wedi'u lleoli a phwy bynnag ydyn nhw, i ymgolli yn nhapestri cyfoethog celf, hanes, gwyddoniaeth naturiol, a diwylliannau amrywiol Cymru.

Mae gennyn ni gasgliad o fwy na 5,000,000 o eitemau, ac rydyn ni’n cynnal ac yn datblygu saith safle treftadaeth Gradd I ledled Cymru a Chanolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw. Gyda'i gilydd, mae'r daliadau hyn yn adrodd stori Cymru, ei phobl a'i hamgylchedd, gan gysylltu hefyd â hanesion a diwylliannau byd-eang.

Mae ehangder a chyfoeth ein casgliadau yn cael eu cydnabod yn eang ac mae'r Is-adran Casgliadau ac Ymchwil wedi ennill enw da nodedig yng Nghymru a’r tu hwnt. Er bod rhannau sylweddol o'r casgliadau hanes naturiol a chelfyddyd yn unigryw i Gymru, tarddiad rhyngwladol sydd i gyfran sylweddol. Mae'r cymeriad deuol hwn yn fodd i Amgueddfa Cymru archwilio hunaniaeth unigryw Cymru a'i gosod yn gadarn mewn cyd-destun byd-eang yr un pryd.

Yn eu hanfod, mae'r casgliadau cenedlaethol yn bodoli ar gyfer pobl Cymru, heddiw ac yfory. Maen nhw’n ymgorffori treftadaeth a chreadigrwydd y genedl, ac yn cynnig llwyfan i edrych ar straeon newydd, lleisiau amrywiol, a phrofiadau cyffredin ar y llwyfan byd-eang.





AMGUEDDFA CYMRU

# Ein Hymchwil

Mae rhaglen ymchwil Amgueddfa Cymru yn fyd-enwog ac mae'n sail i ddehongli a datblygu'r casgliadau hyn a gofalu amdanyn nhw. Mae'n hybu gwybodaeth ar draws hanes celf, archaeoleg, gwyddorau naturiol, a threftadaeth ddiwylliannol, gan greu dirnadaeth newydd o heriau byd-eang dybryd fel newid hinsawdd a bioamrywiaeth. Gyda nifer o brojectau sy’n uchel eu proffil ac yn werth miliynau o bunnoedd ar y gweill ar hyn o bryd, mae’n hymchwil yn parhau i leoli Cymru fel canolbwynt arloesi a darganfod.

Cydweithio sydd wrth wraidd y gwaith hwn. Mae partneriaethau gyda phrifysgolion, amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol ledled y byd wedi sefydlu Amgueddfa Cymru fel arweinydd mewn ysgolheictod a dehongli. Mae’r uchafbwyntiau diweddar yn cynnwys arddangosfa deithiol fawr o baentiadau tirlun Cymreig ledled yr Unol Daleithiau ac arolwg nodedig o gelf Brydeinig a Ffrengig rhwng 1816 a 1916 yn Japan - projectau sy'n dangos sut mae’n casgliadau a'n hymchwil gyda'i gilydd yn atseinio ymhell y tu hwnt i Gymru.

Nid yw’n casgliadau’n statig: maen nhw'n adnoddau byw, sy'n esblygu. Mae ymchwil yn sicrhau eu bod yn dal yn ddeinamig ac yn berthnasol, gan greu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, addysgu a hyfforddiant proffesiynol. Yn fwyfwy, mae llwyfannau digidol hefyd yn ymestyn cyrhaeddiad casgliadau ac ymchwil, gan agor cyfleoedd newydd ar gyfer mynediad, dysgu a dehongli.






AMGUEDDFA
CYMRU
B/P/18

# Edrych ymlaen

Mae hwn yn amser gwirioneddol anhygoel i ymuno ag Amgueddfa Cymru. Bydd gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil rôl sylfaenol wrth gefnogi'r Ymddiriedolwyr, gan weithio gyda thîm gweithredol sy'n uchel ei berfformiad ac arwain a rheoli tîm gwych, proffesiynol ac amrywiol o gydweithwyr i wireddu'n gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol.

Wrth inni edrych ymlaen, mae Amgueddfa Cymru'n esblygu gyda chenhadaeth o ddarparu profiad diwylliannol eithriadol i bobl Cymru ac i ymwelwyr o bob cwr o'r byd. Bydd gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil rôl ganolog a blaenllaw wrth lunio dyfodol safleoedd dau o'r prif gyrchfannau diwylliannol yng Nghymru: adnewyddu'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Llanberis, sy'n werth £23 miliwn, a thrawsnewid Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn fawr.

Yn Llanberis, bydd hyn yn golygu penderfynu sut olwg fydd ar ailagoriad Amgueddfa Lechi Cymru, curadu cynllun arddangosfeydd ar gyfer yr hyn a fydd yn amgueddfa newydd i bob pwrpas, a phenderfynu ar y ffordd orau i arddangos a rheoli'n casgliadau yn y Gogledd. Yng Nghaerdydd, bydd y Cyfarwyddwr yn helpu i lywio heriau ailddatblygu cymhleth, gan sicrhau bod casgliadau'n cael eu storio'n ddiogel, eu symud yn briodol, a'u bod nhw mor hygyrch â phosibl i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod pontio — boed hynny drwy amgueddfeydd dros dro, arddangosfeydd teithiol, rhaglenni digidol arloesol, neu drwy ddulliau eraill y mae'r Cyfarwyddwr yn eu gweld yn briodol.

Ochr yn ochr â'r projectau trawsnewid hyn, bydd y Cyfarwyddwr hefyd yn arwain datblygiad cylch cynllunio strategol pum mlynedd newydd ar gyfer yr Is-adran Casgliadau ac Ymchwil. Bydd hyn yn gofyn am reolaeth ragweithiol ar risgiau i'r casgliad cenedlaethol, cysoni blaenoriaethau'n ofalus â'r adnoddau sydd ar gael, a sicrhau bod cynaliadwyedd hirdymor yn sail i bob agwedd ar ofal y casgliadau, eu storio a mynediad atyn nhw.



Mae'r rôl hefyd yn gyfrifol am lunio rhaglen ymchwil Amgueddfa Cymru yn y dyfodol. Gyda nifer o brojectau amlwg, sy'n werth miliynau o bunnoedd eisoes ar y gweill, bydd y Cyfarwyddwr yn adeiladu ar y sylfaen hon i sicrhau bod ymchwil yn dal i ategu gofal casgliadau, sbarduno rhagoriaeth ysgolheigaidd, a gwella enw da yr Amgueddfa yn fyd-eang.

Fel llawer o amgueddfeydd cenedlaethol, mae Amgueddfa Cymru yn wynebu heriau o ran storio a gofalu ym maes etifeddiaeth. Bydd y Cyfarwyddwr yn arwain y gwaith cynllunio cydgysylltiedig ar draws casgliadau, ystadau, gweithrediadau, a swyddogaethau datblygu cyfalaf sy'n hanfodol i ddarparu'r atebion mwyaf effeithiol.

Y tu hwnt i'r cyfrifoldebau gweithredol a strategol hyn, bydd y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn llysgennad amlwg i Amgueddfa Cymru. Bydd yn meithrin partneriaethau ledled Cymru ac yn rhyngwladol, gan sicrhau bod yr Amgueddfa'n dal yn arweinydd dibynadwy ym maes ysgolheictod, dehongli ac ymgysylltu â'r cyhoedd.



Y GREFFT O FRWYDRO
THE ART OF BATTLING
BATTLE JAM
BRWYDRAU BÎT-BOCSIO
CAERDYDD / CARDIFF
BEATBOX BATTLES
HIGHERLEARNING
DMC UK FINAL
Friday 2nd Sept 2005
HUNTING SEASON

# Ynglŷn â'r rôl

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn adrodd i'r Prif Weithredwr. Bydd yn darparu arweinyddiaeth ddeallusol, afaelgar a blaengar i'r Is-adran Casgliadau ac Ymchwil a'r adran Arddangosfeydd. Bydd yn blaenoriaethu gweithgareddau sy'n hybu Gweledigaeth Amgueddfa Cymru, gan sicrhau bod y casgliadau cenedlaethol a'r rhaglenni ymchwil yn parhau i ysbrydoli, addysgu ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd ledled Cymru ac yn rhyngwladol.

Bydd y Cyfarwyddwr yn arwain Is-adran o ryw 200 o staff sy'n cynnwys naw adran gan gynnwys Celf, Hanes ac Archaeoleg, Gwyddorau Naturiol, a Gwasanaethau Casgliadau (gan gynnwys Cadwraeth), Ymchwil, Casgliad y Werin, ac Arddangosfeydd.

Bydd hefyd yn rheoli staff sy'n gyfrifol am brojectau ychwanegol sy'n dod o fewn cylch gwaith yr Is-adran, ynghyd â datblygiadau allweddol gan gynnwys storio casgliadau, gwell mynediad at gasgliadau, y Strategaeth Ymchwil a'r Cynllun Gweithredu, a digideiddio'r casgliadau at ddefnydd cyhoeddus. Bydd yn arwain ar ddefnyddio technoleg ddigidol a deallusrwydd artiffisial i greu ffyrdd arloesol o ymwneud â'r casgliadau a rhyngweithio â nhw.

Bydd yn goruchwylio datblygiad ein Strategaeth Arddangosfeydd i Gymru, sy’n cyd-fynd â'r Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus a'n strategaeth sefydliadol Amgueddfa Cymru 2030 sy'n cynnwys sicrhau bod arddangosfeydd, arddangosiadau a rhaglenni yn adlewyrchu amrywiaeth, cyfoeth ac arwyddocâd rhyngwladol y casgliadau cenedlaethol.

Fel rhan o Uwch Dîm Arweinwyr Amgueddfa Cymru, bydd y Cyfarwyddwr yn darparu arweinyddiaeth strategol a thosturiol i'r Is-adran Casgliadau ac Ymchwil a'r sefydliad ehangach, gan gefnogi'r gwaith o wireddu Gweledigaeth, Cynllun Gweithredol, a rhaglen flaengar Amgueddfa Cymru.

Bydd yn nodi cyfleoedd arloesol ar gyfer cynhyrchu incwm ac yn sicrhau bod targedau ariannol yn cael eu bodloni. Bydd yn cadw i fyny â’r ymchwil mewn gwyddor amgueddfa ac arferion gorau cyfredol y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, gan gymhwyso'r arbenigedd hwn at wella gwaith yr Is-adran a'r sefydliad ehangach.

Bydd hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth hybu gwaith newydd cyffrous Amgueddfa Cymru ym maes trwyddedu’r brand, gan ddatblygu partneriaethau strategol sy'n ymestyn cyrhaeddiad casgliadau'r Amgueddfa ac adrodd straeon i gynulleidfaoedd newydd.

Gan weithio mewn partneriaeth â’r cyd-Gyfarwyddwyr, bydd y sawl a benodir yn gyfrifol ar y cyd am arweinyddiaeth a rheolaeth Amgueddfa Cymru, gan sicrhau bod pob swyddogaeth yn gweithredu'n gydweithredol o fewn ei strwythur matrics i gyflawni nodau corfforaethol. Bydd hefyd yn cynrychioli'r Amgueddfa ledled Cymru ac yn rhyngwladol, gan godi proffil cyhoeddus ac enw da Amgueddfa Cymru a'i chasgliadau.





AMGUEDDFA CYMRU

# Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

**Prif Ddiben y Rôl:**
Darparu arweinyddiaeth ddeallusol, dosturiol a strategol i Is-adran Casgliadau ac Ymchwil Amgueddfa Cymru, gan sicrhau bod casgliadau'r genedl yn derbyn gofal ac yn cael eu datblygu a'u rhannu er lles y budd cyhoeddus mwyaf. Mae'r rôl hon wrth wraidd cyflawni Gweledigaeth Amgueddfa Cymru, gan gyfuno trylwyredd academaidd, arloesedd creadigol ac arweinyddiaeth gref i bobl er mwyn sicrhau bod y casgliadau'n ysbrydoli ac yn ennyn diddordeb cynulleidfaoedd ledled Cymru a'r tu hwnt.

Fel uwch arweinydd, byddwch yn cyfuno trylwyredd academaidd, arloesedd creadigol ac arweinyddiaeth pobl gref er mwyn:

- Diogelu ac ehangu'r casgliadau a'u gwneud yn hygyrch er lles y cyhoedd.
- Goruchwylio Strategaeth Arddangos Cymru, sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus ac Amgueddfa Cymru 2030.
- Sbarduno rhagoriaeth mewn ymchwil trwy gadw i fyny ag arferion arloesol mewn gwyddor amgueddfa ac arwain y gwaith o'u cymhwyso yn bersonol ar draws yr Is-adran.
- Ysbrydoli newid trawsnewidiol, gan sicrhau bod timau curadurol, arddangosfeydd ac ymchwil yn cydweithio'n effeithiol ac yn cyflwyno diwylliant sy'n gwirioneddol ganolbwyntio ar yr ymwelwyr.
- Sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli ag uniondeb, effeithlonrwydd a chydymffurfiaeth, gan ddod o hyd i ffyrdd arloesol o gynhyrchu incwm a chyflawni targedau uchelgeisiol.
- Cyfrannu'n llawn at arweinyddiaeth ar y cyd o fewn yr Uwch Dîm Arweinwyr, gan gefnogi'r Weledigaeth, y Cynllun Gweithredol a'r flaenraglen.
- Cynrychioli Amgueddfa Cymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan godi ei phroffil a'i henw da fel sefydliad cenedlaethol.

**Mae'r Cyfrifoldebau Allweddol yn cynnwys:**

- Ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gasgliadau Amgueddfa Cymru, gan sicrhau eu bod yn cael eu hymchwilio a'u datblygu, eu bod yn derbyn gofal a'u gwneud yn hygyrch, gan feithrin cydweithio ar draws yr adrannau.
- Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau ar gasgliadau, ymchwil ac arddangosfeydd, gan ymgorffori safonau proffesiynol ac arferion moesegol.
- Hybu hygyrchedd a chynhwysiant, gan sicrhau bod cynulleidfaoedd amrywiol yn siapio gwaith yr Amgueddfa ac yn profi'r Amgueddfa fel un ystyrlon ac yn agored i bawb.
- Cyflawni'r Strategaeth Ymchwil a'r Cynllun Gweithredu, gan sicrhau bod y projectau'n cryfhau rôl Amgueddfa Cymru fel canolfan arbenigedd.
- Gosod targedau a gweithredu'r Strategaeth Digideiddio, gan ehangu'r mynediad ar-lein i gasgliadau ac adnoddau.
- Ysbrydoli newid diwylliannol, gan ysgogi'r staff ar draws y timau curadurol, arddangosfeydd ac ymchwil i arloesi gydag ethos sy'n canolbwyntio ar ymwelwyr.
- Nodi a dilyn cyfleoedd beiddgar, gwreiddiol i gynhyrchu incwm, gan arallgyfeirio ffrydiau refeniw i ategu cynaliadwyedd.
- Gweithio gyda'r cyd-Gyfarwyddwyr i gynllunio a chyflawni rhaglenni dysgu, digwyddiadau ymgysylltu a chyfranogi cyhoeddus effeithiol.
- Rheoli'r gyllideb gaffael yn gyfrifol a chydlynu cynigion am gyllid allanol.
- Sicrhau bod adnoddau ariannol a dynol yr Is-adran yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn unol â'r arferion gorau.
- Chwarae rhan weithredol yn yr Uwch Dîm Arweinwyr, gan sicrhau bod yr Is-adran yn cyfrannu at nodau corfforaethol o fewn y strwythur matrics.
- Cynrychioli Amgueddfa Cymru gydag awdurdod ledled Cymru a'r tu hwnt, gan gryfhau ei henw da a'i phroffil cyhoeddus.
- Cynnal ethos gwasanaeth cyhoeddus yr Amgueddfa, gan sicrhau tryloywder, atebolrwydd ac ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

# Manyleb Person

**Bydd yr ymgeiswyr yn dod â'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ganlyn...**

**Gwybodaeth a Phrofiad:**

- Gwybodaeth gyfredol o syniadau ac arferion gwyddor amgueddfa, a'r gallu i gymhwyso hyn yn effeithiol at strategaethau, polisïau a gweithrediadau.
- Dealltwriaeth o gynulleidfaoedd amgueddfeydd a sut mae hyn yn llywio gwaith curadurol, gan gynnwys dethol gwrthrychau, gofalu amdanyn nhw, eu cadw, eu harddangos a'u dehongli.
- Gwybodaeth am arferion arddangos cyfredol amgueddfeydd, gan ganolbwyntio ar brofiadau diddorol, cynhwysol a hygyrch.
- Arbenigedd yn arferion gorau rheoli casgliadau ac ymwybyddiaeth o ystyriaethau iechyd a diogelwch.
- Ymwybyddiaeth o ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol yn y sector amgueddfeydd.
- Arweinyddiaeth uwch gydnabyddedig mewn ymchwil, ymgysylltu cyhoeddus a rheoli casgliadau.
- Profiad o arwain timau amlddisgyblaeth, ysgogi staff, rheoli cyllidebau, a chyflawni projectau cymhleth.
- Hanes o ddatblygu a gweithredu strategaethau ac ysbrydoli timau i gyflawni amcanion sefydliadol.
- Profiad o reoli rhaglenni ymchwil, cyhoeddi allbynnau a dehongli casgliadau ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol.
- Ymrwymiad i safonau proffesiynol ac arferion da wrth reoli casgliadau.
- Dealltwriaeth o sut mae'r Is-adran yn cyfrannu at strategaethau'r llywodraeth, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Sgiliau a Nodweddion Personol:**

- Angerdd dros genhadaeth Amgueddfa Cymru ac empathi tuag at hanes a threftadaeth Cymru.
- Meddyliwr strategol, sy'n troi cynlluniau a pholisïau'n ganlyniadau diriaethol.
- Cyfathrebwr rhagorol, sy'n gallu ysbrydoli ac ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid allanol.
- Sgiliau rheoli newid amlwg i gyflawni gwelliannau sefydliadol cynaliadwy.
- Dygn, gwydn a dewr, yn gallu gweithio ar gyflymder.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gyda'r gallu i ymgorffori'r egwyddorion hyn yn ymarferol.
- Yn dangos deallusrwydd emosiynol, gwrando'n weithredol, a'r gallu i arwain â thosturi a charedigrwydd er mwyn adeiladu ymddiriedaeth, meithrin cynhwysiant, a chryfhau cysylltiadau dynol.

**Dymunol:**

- Dealltwriaeth o dirwedd wleidyddol Cymru a'i pherthnasedd i gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.
- Cymhwyster neu brofiad mewn hyfforddi a mentora.
- Gradd neu gymhwyster cyfwerth sy'n berthnasol i'r swydd; cymhwyster ôl-raddedig neu brofiad cyfatebol yn ddymunol.
- Hyfforddiant mewn rheoli neu brofiad cyfatebol.
- Cymhwyster rheoli projectau (e.e., PRINCE2, Agile).
- Mae'r gallu i siarad Cymraeg adeg y penodi yn ddymunol. Os nad yw'r ymgeisydd yn siarad Cymraeg adeg ei benodi, bydd gofyn iddo ymrwymo i gwblhau cwrs Sylfaen o fewn blwyddyn i ddechrau'r swydd, gyda'r disgwyliad y bydd yn cyrraedd lefel Uwch o fewn cyfnod rhesymol a gytunir ar y cyd.


broncolor
softbox 120x180
broncolor
softbox 120x180
IQ

# Telerau Penodi

**Cyflog:** dros £75,512 yn dibynnu ar sgiliau a phrofiad.
**Gwyliau blynyddol:** 27 diwrnod ynghyd ag 8 Gŵyl Banc ac 1 diwrnod braint. Mae'r gwyliau blynyddol yn cynyddu 5 diwrnod ar ôl 5 mlynedd.
**Contract:** parhaol.
**Oriau'r contract:** 35.

**Mae pob penodiad newydd yn dibynnu ar dderbyn geirdaon, adroddiad meddygol ac archwiliad boddhaol o euogfarnau troseddol a phrawf o hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.**

**Diwydrwydd dyladwy**
Bydd gwaith diwydrwydd dyladwy yn cael ei wneud fel rhan o'r broses ymgeisio, a all gynnwys chwilio trwy gyfrwng peiriannau chwilio ar y rhyngrwyd ac unrhyw gyfrifon cyhoeddus yn y cyfryngau cymdeithasol.



AMGUEDDFA CYMRU

# Sut i wneud cais

**Mae Saxton Bampfylde Ltd yn gweithredu fel cynghorydd asiantaeth gyflogaeth i Amgueddfa Cymru ar y penodiad hwn.**

Dylai'r ymgeiswyr wneud cais am y rôl hon trwy ein gwefan yn www.saxbam.com/appointments gan ddefnyddio'r cod **EBWGA**

Cliciwch ar y botwm 'apply' a dilynwch y cyfarwyddiadau i uwchlwytho CV a llythyr eglurhaol a llenwch y ffurflen monitro cyfle cyfartal ar-lein*.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd ar **ddydd Mawrth 30 Medi.**

* Ni fydd y ffurflen monitro cyfle cyfartal ar-lein yn cael ei rhannu gyda neb sy'n ymwneud ag asesu'ch cais. Byddwch cystal â llenwi'r ffurflen fel rhan o'r broses ymgeisio

**Hysbysiad data personol GDPR**

Yn unol â'r canllawiau ar y GDPR, dim ond gyda'ch cydsyniad penodol chi y cawn ni brosesu'ch Data Personol Sensitif (tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, data genetig, data biometrig, iechyd, bywyd rhywiol, neu gyfeiriadedd rhywiol). Gofynnir ichi lenwi ffurflen gydsynio pan fyddwch chi'n gwneud cais a pheidiwch â chynnwys dim Data Personol Sensitif yn eich CV (er y cewch chi ei gynnwys yn eich llythyr eglurhaol os hoffech wneud hynny), gan gofio hefyd beidio â chynnwys manylion cysylltu canolwyr heb sicrhau eu cytundeb nhw ymlaen llaw.




Saxton Bampfylde